

Rhif 1

GWANWYN 2015



CYMEITHAS HANES LLAMBED AMGUEDDFA LLAMBED

www.hanesllamed.org.uk epost: hanesllamed@btinternet.com

ARDDANGOSFEYDD NEWYDD 2015

Croeso i argraffiad cyntaf ein tudalen newyddion. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich ymweliad heddiw a diolch am alw.

Gwirfoddolwyr yn unig sydd yn rhedeg yr Amgueddfa, y cyfan yn aelodau o Gymdeithas Hanes Llamed. Os oes gennych ddiddordeb mewn hanes lleol, neu os ydych am ddod yn wirfoddolwr, cysylltwch â ni. Mae'n rhaid i bob wirfoddolwr fod yn aelod o Gymdeithas Hanes Llamed ac mae'r aelodaeth yn £7.50 y flwyddyn.

Trwy'r flwyddyn mae Hanes Llamed yn cynnal cyfarfodydd unwaith y mis gyda darlithwyr yn siarad ar wahanol destunau. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Hen Neuadd y Brifysgol, £1 i'r rhai na sy'n aelodau.

**DIGWYDDIADAU I DDOD —
DIWRNOD PRISIAD — Dydd Llun
8ed Mehefin o 11yb — 3yp bydd
priswr o Arwerthwyr Peter Francis,
Caerfyrddin yn bresennol yn
yr Amgueddfa i brisio eich hen
drysorau yn ddi - dâl.**

Diolch i'r Cambrian News a Sainsbury am eu rhoddion caredig. Diolch hefyd i'r rhai sydd wedi'n cefnogi drwy ddod yn 'Gyfeillion yr Amgueddfa'.

Mae arddangosfeydd newydd eleni yn cynnwys:

◆ Brwydr Waterloo ◆ 1915 - dilyn milwyr â chysylltiad a Llamed ◆ Y diwydiant Ilaeth /ffermio a chaws ◆ Hanes Gorsaf Llamed trwy luniau ◆ Timothy Richards — cenhadwr yn Tsieina.

DIWRNOD AGORED—DEWCH A'CH HEN LUNIAU

Yn Ionawr 2015 daeth Aelodau Pwyllgor yr Amgueddfa ynghyd i gael hyfforddiant gan 'Casgliad y Werin'. Cynllun y Llywodraeth mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw hwn. Dangoswyd sut oedd scanio lluniau a'u cadw ar gyfrifiadur. Rhoddwyd cyfrifiadur, scanner a camera i'r Amgueddfa. Ar draws y flwyddyn byddwn yn cynnal diwrnodau agor pan fydd y cyhoedd yn dod a lluniau, llythyrau, a phapurau fel bydd modd cadw cofnod digidol ar y manylion. Mae

yna hefyd ffordd i ffilmio a chofnodi straeon y rhai ohonoch sydd yn dewis, felly bydd modd eu cadw i'r dyfodol.

Mae Amgueddfa Llamed yn awr yn Safle Treftadaeth Digidol dros Casgliad y Werin.

Bydd Diwrnodau Agored yn cael eu hysbysebu ar y wefan, yn y 'Grapevine' ac hefyd yn yr Amgueddfa.

CYFEILLION AMGUEDDFA LLAMBED

Mi fedrwrch gefnogi'r Amgueddfa drwy ddod yn 'Gyfaill' - mae fflurflen ar gael yn yr amgueddfa neu ar y wefan

www.hanesllamed.org.uk